OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

# Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 4

### RHEOLI A RHEOLEIDDIO'R HARBWR

**Rhwystrau mewn angorfeydd**

**26.**—(1) Mae unrhyw berson sydd—

(a) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu o dan awdurdod y Comisiynwyr i osod angorfeydd;

(b) yn fwriadol a heb awdurdod cyfreithlon yn tynnu allan neu'n symud ymaith y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw angorfeydd o'r harbwr;

(c) heb esgus rhesymol yn achosi neu'n caniatáu i long gael ei hangori yn yr harbwr ac eithrio mewn angorfa a ddarperir neu a drwyddedir gan y Comisiynwyr o dan y Gorchymyn hwn; neu

(ch) yn lleoli, gosod, cynnal, adnewyddu neu'n cael yn yr harbwr unrhyw angorfa nas darparwyd neu nas trwyddedwyd gan y Comisiynwyr o dan y Gorchymyn hwn;

yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(2) Os yw unrhyw berson yn cyflawni tramgwydd o dan baragraff (1)(c), caiff y Comisiynwyr, ar unrhyw adeg ar ôl diwedd cyfnod o saith diwrnod o ddyddiad y tramgwydd—

(a) symud ymaith y llong, gan gynnwys unrhyw offer sydd ynghyd â'r llong;

(b) gwaredu'r cyfryw; ac

(c) adennill allan o'r arian gwerthiant—

(i) unrhyw ffi sy'n daladwy o dan erthygl 33 ac nas talwyd;

(ii) unrhyw ffi am drwydded sy'n daladwy o dan erthygl 25 ac nas talwyd; a

(iii) treuliau'r symud a'r gwaredu o dan y paragraff hwn;

a byddant yn dal unrhyw warged o'r arian gwerthiant mewn ymddiriedolaeth dros berchennog y llong.

(3) Os nad yw'n hysbys pwy yw perchennog llong a symudir o dan baragraff (2) , ac na ellir dod o hyd i'r perchennog ar ôl ymchwilio'n ddiwyd, caiff y Comisiynwyr wneud cais i'r Llys Ynadon am orchymyn yn rhoi cyfarwyddiadau priodol ynglŷn â gwaredu, gan y Comisiynwyr, unrhyw warged o arian gwerthiant.

(4) Os yw unrhyw berson yn cyflawni tramgwydd o dan baragraff (1)(ch), caiff y Comisiynwyr symud ymaith yr angorfa dan sylw, ac adennill y treuliau o wneud hynny gan y person hwnnw.